# Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Phen-y-Bont ar Ogwr

## Asesiad Llesiant

### Amgylcheddol

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru gynnal asesiad llesiant i ddeall beth sydd bwysicaf, o ran llesiant, i bobl a chymunedau. Cynhaliwyd yr asesiad cyntaf yn 2017.

### Cymdeithasol – yn cynnwys Llesiant Meddyliol a Chorfforol, Cydlyniant Cymunedol, Tai a Digartrefedd

Yr Asesiad Llesiant yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Llesiant a chaiff ei ddefnyddio i nodi'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae disgwyl i'r Cynllun Llesiant gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2023.

### Diwylliannol

Mae dros 450,000 o bobl yn byw yn Ardal Cwm Taf Morgannwg.

Mae llesiant yn ymwneud ag ansawdd bywyd, a sut mae hynny'n gysylltiedig â'r amgylchedd, yr economi, y gwasanaethau rydyn ni eu hangen a'r diwylliant rydyn ni'n ei rannu.

Mae llawer o bethau wedi llunio ein cymunedau a'n lles megis treftadaeth ddiwydiannol, y dirwedd a diddordebau cyffredin mewn chwaraeon a'r celfyddydau, gan roi hanes cyfoethog a chyfle yn y dyfodol. Gellir ystyried y rhain fel ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

### Economaidd

Cynhyrchwyd cyfres o daflenni cryno i gefnogi'r asesiad llesiant.

Maent yn casglu'r wybodaeth genedlaethol a lleol sydd ar gael, gan gynnwys canfyddiadau o ymgysylltu â phobl leol sydd wedi ein helpu i ddeall cyflwr llesiant ar draws yr Ardal yn well.

Wrth ystyried y ffactorau hyn, ni ellir eu hystyried ar eu pen eu hunain gan eu bod yn torri ar draws ei gilydd mewn sawl ffordd.




### Cymunedol

Mae'r adroddiad asesu llawn i'w weld yn:

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf**

**Bwrdd Gwasanaethau CyhoeddusPhen-y-Bont ar Ogwr**